

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Barbara Williams (Henllan) sydd mewn ysbyty yn Fenis yn dilyn anffawd tra ar fordaith, at Geraint Davies (Llansannan) sy'n parhau yn Ysbyty Glan Clwyd, a Menna Streeter (Henllan), hithau'n parhau'n yr Inffirmari. Cyflwynwn y tri ohonynt a'u teuluoedd, ynghyd ag eraill o'r Fro sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y cânt adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drostynt.
- Mae'n dda deall fod Falmi Evans (Saron) a Thomas Evans (Llanfair) wedi cael dod adre o'r ysbyty. Yr ydym yn parhau i'w cofio hwythau yn ein gweddïau, gan ofyn i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.
- Mae Elfed Davies (Saron) bellach wedi symud i Gartref Plas Eleri, Dinbych. Dymunwn Dduw yn rhwydd iddo wrth iddo setlo yno. Yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau eraill sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Morfudd Davies, Miss Hannah Alice Jones a Mrs Mair Roberts (Yr Hen Ficerdy); Mr Aneurin Evans (Park Lodge); Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mr Gwilym Foulkes (Dolwen); a Mr Harold Lloyd (Hafan Gwydir). Gweddiwn eu bod yn profi nerth a daioni Duw yn ddyddiol, a diolchwn am y gofal y maent yn ei dderbyn yno.

Galw gweinidog

O ganlyniad i'r bleidlais dydd Sul, llawenydd yw cael eich hysbysu i bawb fod yn gwbl unfrydol eu dymuniad i alw'r Parch. Owain Aneurin Owen yn weinidog ar yr eglwys yng Ngofalaeth Bro Aled. Llongyfarchiadau mawr Aneurin! Bydd yn cychwyn yn swyddogol fel gweinidog ar yr eglwys hyn ar Orffennaf 1af, 2011. Llawenhawn yn naioni Duw tuag atom a gweddiwn y bydd bendith ar ei weinidogaeth ym Mro Aled, ac arno ef a'r teulu.

I ddod

- **'Dewch i Ddathlu'** – parti i ddathlu 200 mlwyddiant Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Ngholeg y Bala, dydd Sadwrn, Mehefin 18fed rhwng 10.30 a 3.30. Diwrnod o gemau, drama, dawnsio, sgwrsio, addoli a llond trol o hwyl i'r teulu cyfan. Dewch â phicnic!
- Bydd **Martyn Geraint** yn dod draw i'r Fro i oedfa'r bore ein Sul **i-Grist** eleni a gynhelir ar Orffennaf 3ydd yn Llansannan. Yna, bydd cyfle pellach ar ôl yr oedfa i gymdeithasu ac i gael picnic yn y Brenig. Bydd trefniadau eraill wedi eu gwneud os na fydd y tywydd yn ffafriol.
- Cynhelir **Cystadleuaeth Pêl-droed 5-bob-ochr** yng Ngherrigydrudion nos Lun, Gorffennaf 11eg. Bydd tair cystadleuaeth: Bl.2,3 a 4; Bechgyn Bl. 5+6; a Merched Cynradd. Enwau i Anne Lloyd (01490 420589) erbyn Gorffennaf 8fed.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 5^{ed} Mehefin 2011

Ceisiadau gweddi i Celfyn (550274)
neu Hafwen (813445) cyn nos
Fawrth, os gwelwch yn dda.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Wel! fe ddaeth yr alwad ffôn bawn Sul! Mr. Caerwyn Davies a'r Parch. Wayne Roberts yn cyfleu y newyddion da a minnau'n cael y fraint o ymateb yn gadarnhaol. Neges destun gan Mair yn dilyn yn syth bin a dymuniadau gorau gan bawb. Yr ydych wedi rhoi braint fawr i mi yn yr Arglwydd ac edrychaf ymlaen, yn ei nerth Ef i'ch gwasanaethu ac i'ch arwain ato.

Croeso mawr i chi i wasanaethau'r dydd heddiw – y Sul wedi 'Dydd Iau Dyrchafael' pryd yr ydym yn cofio am esgyniad Iesu yn ôl at ei Dad yn y nef.

Pan fyddwn yn ein gwendid mae'n gysur gwybod fod yr un sydd yn cynnig ein helpu yn abl i wneud hynny. Pan fyddwn yn ein gwendid pennaf mae angen y cryfder pennaf arnom. A dyma a gawn yn yr Iesu – pob gallu llawn a phob awdurdod i'n cynorthwyo! Esgyn mewn gogoniant i le o awdurdod i eiriol dros ei bobl a wnaeth Iesu ac nid oes gan neb arall y gallu na'r awdurdod sydd gan Iesu i ofalu trosom nid yn unig yn y bywyd yma ond hefyd yn yr un sydd o'n blaenau!

Mae nifer ohonom mewn gwendid mawr ar hyn o bryd, ac mae baich gofal llawer yn drwm iawn. Nid mynd a'n gadael a wnaeth Iesu wrth esgyn at ei Dad ond mynd i ofyn i'w Dad i anfon yr Ysbryd Glân atom i'n helpu ac i'n harwain.

Ysbryd Crist yw'r Un sy'n cael ei roi i'n cynorthwyo ym mhob peth – ein helpu i gynnal y beichiau trymaf un. Weithiau nid oes gennym eiriau i'n gweddïau – bron nad oes digon o ystyr mewn geiriau i gyfleu yr hyn sydd yn ein calon na'r hyn 'da ni eisiau ei ddweud wrth Dduw. Ar adegau fel hyn y mae'r Ysbryd ei Hun yn ochneidio hefo ni – yn ein cario at Dduw ac yn rhoi mynegiant mewn gweddi i'r hyn sydd 'y tu hwnt i eiriau'.

Weithiau hefyd rydym yn teimlo nad ydan ni yn haeddu dod at Dduw ac nad ydym yn deilwng o gael ein cysuro ganddo. Ar adegau fel hyn cofiwn fod Iesu, ein Brawd a'n Priod hefyd yn gweddïo trosom. Teilyngdod bywyd a marwolaeth anfeidrol Iesu sydd yn ateb yn ein lle – ei deilyngdod Ef yn lle ein bywyd meidrol, annigonol ni. Pwyswn arno. Credwn ei fod yn ddigon i ni - yn ddigon i'n cymodi hefo Duw ac yn ddigon i agor ffynhonnau'r bywyd tragwyddol i ni. Ym mhob cyflwr, parhawn i weddi am yr Ysbryd yn enw Iesu - am iddo ddod yn agos i'n dwyn i sicrwydd ffydd ac at y cysuron tragwyddol sydd gan yr Arglwydd ar ein cyfer.

Llongyfarchiadau arbennig i Ianto a Mali (Bryn Bugad) a phawb arall gafodd lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yr wythnos hon, a phob bendith i Rhun a Gwawr ar eu bywyd priodasol. 'Mlaen ma' Canaan!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elinor Owen, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • Grwp **Adnabod** Elen a Mair yn cyfarfod am 8.00. (Cynhelir Adnabod Addoli yr wythnos nesaf.)
- Mawrth
Mercher • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
• **Darganfod Cristnogaeth** yn Festri Cefn Meiriadog am 7.30.
• 'Moliant ac Emy'n' fydd thema'r sesiwn nesaf o'r **Cwrs i Flaenoriaid ac Aelodau Eglwysy'r Henaduriaeth** yn Nhrefnant am 7.00 gyda Ben Nuss ac Owain Edwards yn arwain.
- **Cyfarfod Chwiorydd Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Waengoleugoed am 7.30.
- Gwener-
Sadwrn • **Diwrnod Genod** yng Ngholeg y Bala - cyfle i ferched o bob oed (16+) i ymlacio, rhannu cymdeithas a dysgu gyda'i gilydd. Mwy o fanylion gan Mair (870632) neu trwy ffonio'r Coleg (01678 520565).
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Meirion yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma • Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf • Bydd cyflwyniad ar waith Cymorth Cristnogol ac oedfa o weddi deuluol yng Nghefn Meiriadog am 10.30, a chinio cynnil i ddilyn – oedolion £5, plant £1, gyda'r elw i Gymorth Cristnogol. Croeso cynnes i bawb. Enwau i Haf Evans (582215) erbyn Dydd Mercher, Mehefin 8fed, os gwelwch yn dda. Ni fydd oedfa yn Llanfair heddiw. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma • Bydd Meirion yn arwain oedfa undebol ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.
- Sul nesaf • Bydd aelodau Capel Peniel yn mynd ar bererindod i weld eglwys ym Mhen Llŷn ac yn cael cinio yn Nant Gwrtheyrn. Caiff trefniadau Saron eu cyhoeddi dydd Sul.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma • Bydd Meirion yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.
- Iau • Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf • Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10.00 pryd y bydd Meilir, mab bach Dei ac Eurgain, yn cael ei fedyddio. Gweinyddir y cymun ar derfyn yr oedfa. Bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y bedydd, a'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma • Bydd Meirion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac oedfa undebol ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf • Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma • Bydd Meirion yn arwain oedfa undebol ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf • Bydd aelodau Capel Henllan yn mynd ar bererindod i weld yr eglwys yn y Bala ac yn cael cinio yn Frongoch. Enwau i Ceinwen Roberts, os gwelwch yn dda. Mynd ar bererindod fydd aelodau Capel Groes hefyd. Fe gewch y manylion yn ystod y dyddiau nesaf.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma • Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf • Bydd Mr Owain Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair - 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Aneurin - 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau